Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mai 11eg 2022

Presennol

Cyng. S.Roberts,Gavin Jones,C.Dixon,D.Morris,G.Hughes,C.Edwards a Delyth Griffiths.

Croesawodd  Cynghorydd Roberts y Cynghorydd Sir newydd Delyth Griffiths  i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau:

Dim

Cofnodion Ebrill 2022.

Cynnigodd C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Materion yn codi.

Beech Road,Hermon.

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth fod Arolygwr Priffyrdd wedi bod yn asesu'r safle hwn a trefnu fod gweithle Cyngor Gwynedd yn cario allan yr holl waith sydd angen ar y ffordd yn yr ardal yma.

CNC- ardal llwybr 311 ar Bothy.

Mae Nicola Maysmor wedi ymateb ar rhan CNC , bydd swyddogion CNC yn edrych i fewn i'r problemau yn yr ardal ac ymateb yn ol i'r cyngor a Cyng Chris Dixon.

Cynghorydd Sir.

Cyflwynodd Cynghorydd Griffiths ei hun yn ffurfiol a chafodd sgwrs fer gyda chynghorwyr am ei dyletswyddau a'r hyn y gallai'r cyngor cymuned ei ddisgwyl ganddi yn ei rôl fel cynghorydd sir.

Ffurfleni etholiad a datganiad derbyn swydd.

Mae aelodau'r cyngor wedi arwyddo derbyn swydd fel cynghorwyr ardal Ganllwyd.

Yn dilyn trafodaeth mi wnaeth y cynghorwyr bledleisio i Dafydd Morris i gael ei cyfethol yn gynghorwr.

Mae'r cyngor yn dal yn brin o 1 cynghorwr.

Materion ariannol.

Cyson Banc: Ebrill 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4083.58 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Praesept | £1500.00 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £9.00 |
| Printer ink | £17.48 |
| Ffranc trydanwr | £241.02 |
| E.W.Owen (cyfrifydd) | £204.00 |
| Yn y banc diwedd mis | £5012.08 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit 2021/22.

Trafodwyd manylion ffurflen “annual return” a oedd wedi ei chwblhau gan y clerc.

Yn dilyn  trafodaeth cytunodd y cyngor fod y manylion sydd ar y ffurflen yn gywir ac arwyddwyd y ffurflen gan y cadeirydd ar clerc i nodi hyn.

Bydd dogfennau i ymwnud ar awdit yn cael eu cyflwyno i Cyngor Gwynedd ar Mai 17eg.

Mae’r clerc wedi cwblhau ffurflen arolwg blynyddol o oriau ac enillion a dderbyniwyd gan y swyddfa ystadegau gwladol.

Llythyrau & E.bost

Derbyniwyd llythyr yn nodi rhaglen gwaith ardal Ganllwyd mis Mai 2022 gan pennaeth priffyrdd Mr A. W .Williams.

Unrhyw fater arall.

Mae’r cyngor weedi derbyn cwyn gan aelod o’r cyhoedd ynglŷn â chyflwr gwael wyneb y ffordd ar yr A470 rhwng yr arwyddion 30mya ym mhentref Ganllwyd.

Mae cyflwr wyneb y ffordd wedi arwain at gerbydau sy'n mynd heibio yn taflu naddion ar geir sydd wedi parcio a thai wrth iddynt yrru heibio. Mae’r clerc wedi cysylltu â’r Asiantaeth Cefnffyrdd i dynnu sylw at y problemau hyn a gofyn i’r asiantaeth i roi sylw i wyneb y ffordd ac i ysgubwr ffordd ymweld â’r ardal i gael gwared ar y naddion rhydd.

Cyng Edwards yn dymuno fod y cyngor yn cysylltu a swyddogion Arrive Alive sydd yn ymweld a’r pentref i barcio o flaen neuadd y pentref a nid i’r chwith or neuadd er mwyn sicarhau  gall gyrwyr sy'n defnyddio'r gyffordd sy'n arwain at Dŷ Cerrig weld cerbydau sy'n teithio o Ddolgellau.

Ffordd Cefndeuddwr,Ganllwyd.

Adroddodd Cyng Morris fod y ffordd hon mewn cyflwr gwael iawn gan fod y ceuffosydd a'r draeniau'n cael eu rhwystro gan ddail a bod wyneb y ffordd a'r gilfan yn rhythu.

Clerc i gysylltu a’r cyngor.

Adroddodd Cyng Dixon fod cerbydau'n cael eu parcio yn y man pasio sydd wedi'i leoli ar Beech Road gan achosi rhwystr i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Mae'r cyngor yn gofyn i'r awdurdod priffyrdd osod unrhyw arwyddion parcio priodol yn y lleoliad i atal y broblem hon rhag digwydd.

Adroddodd Cyng Edwards fod pobl yn gadael baw ci yn ardal y bin halen yn ardal Ty Cerrig.

Mae’r cyngor am ofyn i’r Cyngor Sir osod arwyddion priodol yn yr ardal i atal hyn rhag digwydd ac i gael gwared ar y baw ci